

# CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir y Cyfarfod ar Zoom  
Nos Fawrth, Rhagfyr 14, 2021 am 7:30yh o'r gloch.

## AGENDA

[www.cyngorllanelltyd.cymru](http://www.cyngorllanelltyd.cymru)

### Gweddi

#### 1. Ymddiheuriadau:

#### 2. Datgan diddordeb:

#### 3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 9, 2021

#### 4. Materion yn codi o'r cyfarfod Tachwedd 9, 2021

Eitem 11.b. 1.2. Llythyr 15/11.2021) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod mae llythyr wedi cael ei hanfon i berchennog y gordyfiant a'r cerrig ar ffordd Hrigwm, Bontddu yn gofyn iddynt ymdrin â'r problemau.

Eitem 4, Eitem 11.c. Roedd adroddiad am y gwn fesur cyflymdra cerbydau yn rhifyn Tachwedd o'r Llygad Y Dydd.

#### 5. Materion Ariannol

a. Siec am £1,050 oddi wrth Glyn Rees a'i Fab (8/11/2021). Taliad at Mary Elinor Thurlow Hilton - claddedigaeth pellach £825 + ar fore dydd Sadwrn £225.

b. Llythyr (10/11/2021) oddi wrth Dawns i Bawb. Maent angen cymorth ariannol.

c. Llythyr (23/11/2020) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod ein praesept am 2022 / 2023. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 28, 2022.

Praesept 2020 /2021 - £7,500.00. Praesept 2021 /2022 - £7,500.00.

Anfonwyd i'r aelodau manylion yn rhoi awgrym y praesept am 2022 / 2023.

ch. Bil (7/12/2021) am £2,208 oddi wrth A.M Ashton am waith yn y Fynwent. Torri gwair yn ystod Mehefin, Awst, a Hydref (£1,200); trin y waliau a llwybrau (6awr @14 = £84), chwyn laddwr (£10); torri mân goed (£56); a chlirio coed, drain, eiddew oedd wedi gorchuddio 15 o gerrig beddi a gostwng uchder coeden onnen (£750) a llogi 'chipper' (£108).

d. Llythyr (25/11/2021) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwariant Adran 137 y terfyn ar gyfer 2022-23. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 o dan adran 137(4)(a), (1) a (3) £8.82, am bob etholwr, at ddibenion elusennol a sefydliadau eraill.

Bydd yr uchafswm yn £8.82 x 386 = £3,404.52.

d. Llythyr (26/11/2021) oddi wrth Hosbisau Plant, Tŷ Gobaith, Conwy. Maent angen cymorth ariannol.

dd. Balans yn y banc ar 29/11/2021: £14,533.46. (29/11/2020: £12,827.02).

## **6. Archwilio**

## **7. Mynwent Llanelltyd**

Gweler eitem 5.ch.

## **8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

## **9. Gohebiaeth**

a. Llythyr (11/11/2021) oddi wrth Swyddog, Cefnogi Cymunedau - Meirionnydd. Maent yn rhoi gwybod bydd Cynhadledd gyda Gwasanaeth Twristiaeth Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri 2035 ar Dachwedd 30, 2021 am 9.00yb - 12.00yp i drafod Cynllun Economi Ymweld Gwynedd ac Eryri. Mae'r llythyr yn cynnwys linc Zoom i'r gynhadledd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (15/11/2021) oddi wrth Un Llais Cymru gydag ymateb i ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunan darpar.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (21/11/2021) oddi wrth Mr Ashley Charlwood, Carreg Feurig yn rhoi gwybod am ddamwain cafodd wrth Cwm Mynach Canol. Tarodd ei gerbyd cerrig ar ochr y ffordd gan achosi difrod i 'track rod end'. Am hyn, mae am hawlio costau yn erbyn Cyngor Gwynedd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd gyda nodyn yn gofyn iddynt symud y cerrig..

ch. Llythyr (25/11/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgáu Agenda ar gyfer Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd a Chofnodion y Pwyllgor cynhaliwyd ar Medi 2021. Bydd y cyfarfod am 7.00yh, 8/12/2021 ar Zoom.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

d. Derbyniwyd (1/12/2021) dogfen oddi wrth BT. Copi o'r ddogfen 'Agreement for the sale and purchase of telephone kiosk(s) to a local authority (parish meetings) in England and Wales'. Cafodd y cytundeb ei wneud ar Dachwedd 20, 2020. Mae'r mater ynglŷn â chiosg rhif ffôn 0341 430225, Tyn-Glanafon, Bontddu.

## **10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

### **11. Materion yr Aelodau**

a. Nid yw to lloches bws wedi cael ei drwsio.

Trwy alwad ffôn gyda'r adeiladwr Mr Richard Williams, cafwyd wybod bydd y gwaith yn cael ei wneud wythnos hon.

b. Mae Clogau -St David's Gold Mine yn bwriadu gwneud gwaith ymchwil ymhellach o'r tir Cwm Mynach drwy ddefnyddio drôn. Bydd y drôn yn gwneud arolwg geoffisegol o'r ardal heb orfod tynnu lluniau. Pwrpas yr arolwg i'w mesur ymateb magnetig y creigiau dan yr wyneb. Bydd y gwaith yn cymryd 8 diwrnod i'w gwblhau a hwyrach ambell i dro dros gyfnod o 6 mis hyd at 31/5/2022. Mae trigolion Cwm Mynach yn gwrthwynebu'r bwriad oherwydd maent angen esboniad llawn o fwriadau'r cwmni a beth fydd yn ei olygu i drigolion y cwm. Trwy Elfed ap Gomer mae llythyr wedi ei anfon i'r cwmni gyda deiseb o wrthwynebwyr i'r bwriad. Mae copi wedi ei anfon i Mabon ap Gwynfor AS, Liz Saville Roberts AS, Parc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru, R.S.P.B., Coed Cadw/ Woodland Trust, a Cyngor Cymuned Llanelltyd, Tai Cynhaeaf a Bontddu. (Gweler cofnodion Ionawr 12, 2021, eitem 2.).

Yn gywir,  
H.M. Edwards, Clerc